# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-01-08 (p9): 31 Ionawr 2008

### Cyfeirnod y ddeiseb P-03-075: Prif Swyddog Gwyddonol

### Geiriad y ddeiseb:

Mae 'Gwyddoniaeth a'r Cynulliad' yn credu'n gryf y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i Lywodraeth greu swydd ar gyfer Prif Gynghorydd Gwyddonol gan ein bod yn credu bod hynny'n gwbl hanfodol os ydym am lwyddo i ddatblygu a gweithredu polisi gwyddoniaeth ar gyfer Cymru, sicrhau dyfodol economi Cymru ac ansawdd bywyd ei phobl.

### Diben

Ystyried y sefyllfa ddiweddaraf ynghylch y ddeiseb hon.

### Cefndir

Cytunodd y Pwyllgor, yn ei gyfarfod ar 6 Rhagfyr 2007, i ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru i ofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch penodi Prif Gynghorydd Gwyddonol.

Mae Prif Weinidog Cymru wedi ysgrifennu i gadarnhau penodiad yr Athro  Christopher Pollock CBE fel Prif Gynghorydd Gwyddonol.

Mae copi o'r llythyr hwn, ynghyd â'r datganiad i'r wasg yn cyhoeddi penodiad yr Athro Pollock, i'w gweld ym mhapur PET(3)-01-08 (p9A) sydd wedi'i atodi.

### Camau i'w cymryd gan y Pwyllgor

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y llythyr gan Brif Weinidog Cymru, a phenderfynu a oes angen cymryd unrhyw gamau pellach.

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

### Ionawr 2008